

# Oeddech chi'n gwybod bod dros 400 o danau yn ymwneud â thrydan yn ystod 2016-2017 wedi digwydd mewn cartrefi yng Nghymru?

## Awgrymiadau am sut i wella diogelwch trydanol eich cartref:

- Gwnewch yn siŵr bod gyda chi ddiogelwch Dyfais Cerrynt Gweddilliol 'RDC' ar gyfer eich blwch ffiwsys
- Gwnewch yn siŵr nad yw eich socedi plygiau yn cael eu gorlwytho. Mae Diogelwch Trydanol yn Gyntaf ('Electrical Safety First') wedi datblygu "cyfrifiannell soced" ar-lein i'ch helpu sicrhau bod eich socedi chi'n ddiogel. Defnyddiwch gyfrifiannell socedi Diogelwch Trydanol yn Gyntaf i weld a ydych yn gorlwytho eich socedi.
- Sicrhewch nad yw plygiau a socedi wedi cael eu difrodi
- Archwiliwch geblau gweladwy a gwifrau i sicrhau eu bod mewn cyflwr da
- Gwnewch yn siŵr nad oes difrod amlwg i'ch ffitiadau a bod goleuadau sy'n goleuo ar i lawr mewn cyflwr gweithredol da
- Gwnewch yn siŵr nad ydych yn storio deunyddiau llosgadwy o amgylch eich blwch ffiwsys, mesurydd trydan neu gyflenwad trydanol
- Peidiwch â chadw pethau ar ben y microdon
- Peidiwch byth â mynd â cheblau o dan garpedi neu rygiau
- Peidiwch byth â chymryd eitemau trydanol a weithredir o'r prif gyflenwad i'r ystafell ymolchi
- Diffoddwch eich offer trydanol bob tro pan nad ydynt yn cael eu defnyddio
- Peidiwch â defnyddio offer garddio trydanol yn yr awyr agored nes bydd y tywydd yn sych



**Am fwy o wybodaeth ewch at [www.electricalsafetyfirst.org.uk](http://www.electricalsafetyfirst.org.uk)  
a [www.registermyappliance.org.uk](http://www.registermyappliance.org.uk)**




Y llynedd yng Nghymru (2016-17), roedd **1,248 o danau trydanol allan o gyfanswm o 1,719** o danau domestig damweiniol. Gall trydan achosi tanau a gall eich lladd. Dyma rai syniadau defnyddiol i'ch cadw'ch hun yn fwy diogel yn eich cartref:

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cofrestru'r cynhyrchion trydanol yn eich cartref. Drwy wneud hynny, gall y gwneuthurwr gysylltu â chi os oes problem. Mae gan Electrical Safety First declyn ar-lein y gallwch ei ddefnyddio i wirio a yw unrhyw rai o'r cynhyrchion yn eich cartref wedi cael eu galw'n ôl. ([www.electricalsafetyfirst.org.uk/recall](http://www.electricalsafetyfirst.org.uk/recall))
- Mae gan y rhan fwyaf o bobl ceblau estyniad yn eu cartrefi, gan ddefnyddio addaswyr bar 4 ffordd i gynyddu nifer yr offer y gallant eu plygio i mewn soced wal. Fodd bynnag, er bod lle i blygio mewn pewar dyfais, nid yw hyn yn golygu ei bod yn ddiogel i wneud hynny. Gwnewch yn siŵr nad yw eich socedi plygiau yn cael eu gorlwytho drwy ymweld â [www.electricalsafetyfirst.org.uk/socketcalculator](http://www.electricalsafetyfirst.org.uk/socketcalculator)
- Os oes angen i chi wneud gwaith trydanol yn eich cartref, defnyddiwch drydanwr cofrestredig. Mae hyn yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer unrhyw waith gosod trydan. Dysgwch ragor ar [www.electricalsafetyfirst.org.uk/findanelectrician](http://www.electricalsafetyfirst.org.uk/findanelectrician)
- Yng Nghymru, caiff tri thân yr wythnos eu hachosi gan nwyddau gwynion, fel peiriannau golchi llestri a rhewgelloedd ac oergelloedd. Mae Electrical Safety First wedi datblygu microwefan gydag awgrymiadau i helpu pobl i ddefnyddio'r teclynnau hyn yn ddiogel. Ewch i [www.whitegoodsafety.com](http://www.whitegoodsafety.com) i gael gwybod mwy.



**Electrical Safety First**   
The UK's electrical safety experts



## Gwefru e-sigaréts a ffonau symudol

- Dilynwch y cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr yn ofalus
- Sylwch ar unrhyw rybuddion a roddir gyda'r cynnyrch
- Gwnewch yn siwr nad yw ffonau symudol, tabledi ac e-sigaréts yn cael eu gadael i wefru am gyfnodau hir o amser
- Peidiwch â gadael ffonau symudol, tabledi ac e-sigaréts wedi'u plygio i mewn heb oruchwyliaeth, dros nos neu tra'ch bod allan o'r tŷ
- Chwiliwch am y marc 'CE' sy'n dangos bod gwefrwyr yn cydymffurfio â safonau diogelwch Ewropeaidd

**Am fwy o wybodaeth ewch at wefan eich Gwasanaeth Tân lleol neu [www.firesafetyfirst.org.uk](http://www.firesafetyfirst.org.uk).**

